


Safonau

ar gyfer Rheolyddion a
Chofrestrau Achrededig

2026





Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Awdurdod) yw corff goruchwyllo'r Deyrnas Unedig ar gyfer rheoleiddio pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ein cylch gwaith statudol, annibyniaeth ac arbenigedd yn sail i'n hymrwymiad i ddiogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ac i amddiffyn y cyhoedd.

Mae 10 sefydliad sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr yn ôl y gyfraith. Rydym yn archwilio eu perfformiad ac yn adolygu eu penderfyniadau ar addasrwydd ymarferwyr i ymarfer. Rydym hefyd yn achredu ac yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cadw cofrestrau o ymarferwyr iechyd a gofal nad ydynt wedi'u rheoleiddio gan y gyfraith.

Rydym yn cydweithio â'r holl sefydliadau hyn i wella safonau. Rydym yn rhannu arfer da, gwybodaeth a'n harbenigedd rheoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym hefyd yn cynnal ac yn hyrwyddo ymchwil ar reoleiddio. Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, gan roi arweiniad i lywodraethau a rhanddeiliaid. Trwy ein hymgynggori yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, rydym yn rhannu ein harbenigedd ac yn ehangu ein mewnwelediadau rheoleiddiol.

Mae ein gwerthoedd craidd o gywirdeb, tryloywder, parch, tegwch, a gwaith tîm, yn arwain ein gwaith. Rydym yn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau a dull o weithredu ar cy.professionalstandards.org.uk/



Safonau i Reolyddion a Chofrestrau Achrededig

Mae ein Safonau (ar gyfer rheolyddion a Chofrestrau Achrededig) yn rhan ganolog o'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein cenhadaeth ac yn gwireddu ein gweledigaeth. Dyma'r offerynnau rydyn ni'n eu defnyddio i ddwyn y sefydliadau rydyn ni'n eu goruchwyllo i gyfrif. Ond yn fwy na hynny, mae'r Safonau'n allweddol i ysgogi gwelliant drwy herio sefydliadau i newid.

Yn y ddogfen hon, fe welwch:

1. Crynodeb cyflym yn nodi'r chwe chategori a'n 16 Safon
2. Disgrifiad mwy manwl yn egluro pam bod y Safon yn bwysig, beth rydym yn ei ddisgwyl a sut allai ei chyflawni edrych yn ymarferol.



Cyflwyniad

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o'n safonau cyfun ar gyfer rheolyddion a Chofrestrau Achrededig. Wedi'i gynnwys ar y diwedd mae'r Safon Cymhwysedd a Budd y Cyhoedd sy'n berthnasol i'r Cofrestrau Achrededig yn unig.

Rydym yn defnyddio'r term "sefydliad" i gyfeirio at reolyddion a Chofrestrau Achrededig.

Categori | Llywodraethu

1

Llywodraethu da

Mae'r corff llywodraethu ac uwch arweinwyr yn rhoi trefniadau ar waith i'r sefydliad amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol a chynnal hyder y cyhoedd.

2

Adrodd ar berfformiad sefydliadol a mynd i'r afael â phryderon

Mae'r sefydliad yn adrodd yn gyhoeddus ar ei berfformiad, yn nodi ac yn gweithredu ar ddysgu ac yn mynd i'r afael â phryderon am ei berfformiad.

Categori | Cyffredinol

3

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

Mae'r sefydliad yn hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn cymryd camau i leihau anghydraddoldebau a sicrhau bod ei bolisiau a'i brosesau yn deg ac yn gyfiawn i bawb.

4

Ymgysylltu a gweithio gydag eraill

Mae'r sefydliad yn ymgysylltu ac yn cydweithio'n effeithiol, er mwyn hysbysu, gwella a chyflawni ei waith. Mae'n ceisio aliniad priodol â sefydliadau eraill, ac yn nodi ac yn rheoli risgiau i'r cyhoedd mewn perthynas â'i unigolion cofrestredig.

Categori | Safonau a Chanllawiau

5

Safonau a chanllawiau ar gyfer unigolion cofrestredig

Mae'r sefydliad yn cynnal, yn cyhoeddi ac yn hyrwyddo safonau a chanllawiau cyfoes sy'n cefnogi ymarferwyr iechyd a gofal i weithredu'n broffesiynol ac ymarfer yn ddiogel, gan flaenoriaethu diogelu'r cyhoedd.

Categori | Addysg a Hyfforddiant

6

Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant

Mae'r sefydliad yn cynnal ac yn cyhoeddi safonau cyfoes ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n blaenoriaethu diogelu'r cyhoedd, yn paratoi dysgwyr i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol a bodloni anghenion poblogaethau amrywiol.

7

Sicrwydd ansawdd Addysg a Hyfforddiant

Mae'r sefydliad yn effeithiol o ran sicrhau ei hun bod darparwyr addysg ac asesu yn darparu dysgwyr sy'n bodloni'r canlyniadau addysg a gofynion cofrestru perthnasol eraill, ac yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer dysgu.

Categori | Cofrestru

8

Y gofrestr gyhoeddus

Mae'r sefydliad yn cadw cofrestr gyhoeddedig gywir a hygyrch o'r holl ymarferwyr iechyd neu ofal, gan nodi'n glir unrhyw gyfyngiadau ar eu cofrestriad. Lle bo'n briodol, mae hyn yn berthnasol i fusnesau a mangreoedd, sydd wedi'u cofrestru.

9

Y broses gofrestru

Mae'r sefydliad yn gweithredu proses dryloyw, gymesur, effeithlon a theg i ganiatáu i ymarferwyr addas yn unig, a, lle bo'n berthnasol, busnesau neu safleoedd ymuno, aros ar, a dychwelyd i'w gofrestr.

10

Diogelu'r cyhoedd rhag cael eu camarwain ynghylch statws cofrestru

Mae'r sefydliad yn cymryd camau cymesur mewn ymateb i'r risg y bydd pobl yn camarwain y cyhoedd ynghylch eu statws cofrestru.

11

Addasrwydd i gofrestru parhaus

Mae gan y sefydliad ofynion a phrosesau cymesur ar waith i sicrhau bod unigolion cofrestredig yn cynnal eu sgiliau ac yn addas i ymarfer.

Categori | Pryderon

12

Codi pryderon am unigolyn cofrestredig

Mae'r sefydliad yn sicrhau bod y broses ar gyfer codi pryder yn hygyrch i bawb, yn egluro'r mathau o bryderon y dylid eu cyfeirio atynt, ac yn cefnogi datrysiad lleol amserol i achosion lle bo'n briodol.

13

Ymchwilio a datrys pryderon – prydlondeb

Mae'r sefydliad yn ystyried, yn ymchwilio ac yn datrys pryderon am unigolion cofrestredig cyn gynted â phosibl ar gyfer datrysiad teg a diogel i'r achos.

14

Ymchwilio a datrys pryderon – tegwch

Mae polisïau a phroses y sefydliad ar gyfer ystyried, ymchwilio a datrys pryderon am unigolion cofrestredig yn deg, yn gymesur, yn gyson ac yn dryloyw, tra'n diogelu'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd.

15

Pryderon am unigolion cofrestredig – adnabod risgiau a gweithredu arno

Mae'r sefydliad yn nodi ac yn rheoli risgiau ym mhob achos sy'n awgrymu bod unigolyn cofrestredig yn peri risg ddifrifol i ddiogelwch a hyder y cyhoedd ac yn cymryd camau amserol i gyfyngu ar ymarfer lle bo angen (megis mesurau dros dro).

16

Pryderon am unigolion cofrestredig – cefnogaeth i bob parti

Mae'r sefydliad yn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar achwynwyr, tystion, ac unigolion cofrestredig sy'n ymwneud â chwyn drwy gydol yr achos ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiad achos mewn ffordd sensitif ac amserol.

Achredu cofrestr wirfoddol | Cymhwyster a lles y cyhoedd

Mae'r gofrestr yn gymwys i gael ei hachredu, yn gweithredu'n gyfreithlon, ac mae achredu'r gofrestr er budd y cyhoedd.



Safonau Cyfunol i Reolyddion a Chofrestrau Achrededig

Manylion

**Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi
manylion ar ein safonau cyfun ar
gyfer Rheolyddion a Chofrestrau
Achrededig. Wedi'i gynnwys ar y
diwedd mae'r Safon Cymhwysedd a
Budd y Cyhoedd sy'n berthnasol i'r
Cofrestrau Achrededig yn unig.**

Categori: Llywodraethu

1 Llywodraethu da

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r corff llywodraethu ac uwch arweinwyr yn rhoi trefniadau ar waith i'r sefydliad amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol a chynnal hyder y cyhoedd.

Pam ei fod yn bwysig

Dylai sefydliad gael ei arwain yn dda a dylai fod ganddo strwythurau a phrosesau yn eu lle er mwyn gwneud penderfyniadau da er budd diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Mae'r sefydliad yn cael ei lywodraethu'n dda a'i arwain yn dda.
- Mae'r sefydliad yn glir ynghylch, ac yn canolbwyntio ar, ei ddiben o wella diogelwch y cyhoedd a hyder y cyhoedd.
- Mae'r sefydliad yn meithrin diwylliant o fod yn agored a dysgu, sy'n cefnogi cynaliadwyedd sefydliadol, gwelliant a lles gweithwyr.
- Mae penderfyniadau cyrff llywodraethu yn gymesur, yn gyson, wedi'u targedu, yn dryloyw, yn atebol, yn ystwyth ac yn seiliedig ar risg. Maent wedi eu llywio gan y dystiolaeth orau sydd ar gael ac yn ystyried safbwyntiau'r rhai y maent yn effeithio arnynt, megis defnyddwyr gwasanaethau ac ymarferwyr, fel y bo'n briodol.
- Caiff gwrthdaro buddiannau ei nodi a'i reoli.

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn adrodd yn gyhoeddus ar ei berfformiad, yn nodi ac yn gweithredu ar ddysgu ac yn mynd i'r afael â phryderon am ei berfformiad.

Pam ei fod yn bwysig

Er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd a hyder y cyhoedd wrth i'r sefydliad fonitro ei berfformiad, nodi pryderon a dysgu perthnasol a gweithredu arnynt. Gall pawb fod yn glir ynghylch pa mor dda y mae'r sefydliad yn perfformio mewn meysydd allweddol.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Mae'r sefydliad yn dryloyw wrth adrodd ar ei berfformiad.
- Mae'r sefydliad yn dadansoddi ei berfformiad ei hun i nodi meysydd i'w dysgu a'u gwella, ac yn gweithredu ar faterion a nodwyd.
- Mae dysgu perthnasol ac arfer gorau o adroddiadau ac ymchwiliadau allanol, gan gynnwys cyhoeddiadau'r Awdurdod, yn cael eu nodi, eu hystyried, a'u hintegreiddio i bolisi ac arfer.

Categori: Cyffredinol

3

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn cymryd camau i leihau anghydraddoldebau a sicrhau bod ei bolisiau a'i brosesau yn deg ac yn gyfiawn i bawb.

Pam ei fod yn bwysig

Fel bod profiad pawb o reoleiddio a chofrestru gweithwyr iechyd a gofal yn deg a chyfiawn, a bod canlyniadau gwahaniaethol annheg rhwng pobl o grwpiau amrywiol, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a rennir yn cael eu lleihau.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Mae'r sefydliad yn deall amrywiaeth ei weithwyr, eu cymdeithion a'u cyrff llywodraethu, ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaethau ac achwynwyr.
- Mae cyfathrebu mewnol ac allanol, polisiau a phrosesau mewnol y sefydliad yn glir ac yn deg i bawb ac yn ystyried anghenion a phrofiadau grwpiau amrywiol, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a rennir.
- Mae'r sefydliad yn deall sut y gall ei bolisiau a'i brosesau arwain at ganlyniadau gwahanol ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw lle nad yw'r canlyniadau'n gyfiawn nac yn rhesymol.
- Mae'r sefydliad yn mynd ati i hyrwyddo cyfle cyfartal a chanlyniadau rhwng grwpiau amrywiol gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig a rennir, tra'n annog eraill i wneud yr un peth.

4 Ymgysylltu a gweithio gydag eraill

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn ymgysylltu ac yn cydweithio'n effeithiol, er mwyn hysbysu, gwella a chyflawni ei waith. Mae'n ceisio aliniad priodol â sefydliadau eraill, ac yn nodi ac yn rheoli risgiau i'r cyhoedd mewn perthynas â'i unigolion cofrestredig.

Pam ei fod yn bwysig

Trwy ymgynghori a gweithio gyda sefydliadau eraill gellir datblygu polisiau gwell. Gall rhannu gwybodaeth briodol am faterion diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth helpu atal niwed.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Mae cydweithio rhwng rheolyddion, cofrestrau a sefydliadau perthnasol eraill, gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth briodol sy'n ymwneud â risg a niwed i'r cyhoedd.
- Caiff polisiau a phrosesau eu llywio gan farn sefydliadau a phobl eraill, a'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarperir ganddynt, er mwyn cefnogi a hyrwyddo diogelu'r cyhoedd yn well.
- Lle bo'n briodol ac yn fuddiol ar gyfer diogelu'r cyhoedd ac ansawdd gofal, mae polisiau a phrosesau wedi'u halinio â rhai sefydliadau a rheolyddion / cofrestrau eraill ac yn hyrwyddo cysondeb canlyniadau ar draws y proffesiynau iechyd a gofal.

Categori: Safonau a Chanllaw

5

Safonau a Chanllawiau ar gyfer Unigolion Cofrestredig

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn cynnal, yn cyhoeddi ac yn hyrwyddo safonau a chanllawiau cyfoes sy'n cefnogi ymarferwyr iechyd a gofal i weithredu'n broffesiynol ac ymarfer yn ddiogel, gan flaenoriaethu diogelu'r cyhoedd.

Pam ei fod yn bwysig

Mae safonau a chanllawiau proffesiynol yn rhoi gwybodaeth hanfodol i ymarferwyr am y safonau ymarfer ac ymddygiad a ddisgwylir ganddynt. Dyma'r modd y caiff hyn ei gyfleu i'r cyhoedd a llywio rhaglenni addysg a hyfforddiant.

Mae safonau a chanllawiau yn bwysig oherwydd eu bod yn helpu galluogi gofal diogel, moesegol o ansawdd uchel a gallant helpu atal problemau rhag digwydd. Pan fydd problemau'n codi maent yn gweithredu fel meincnod ar gyfer asesu addasrwydd gweithiwr proffesiynol i ymarfer.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Mae ymarferwyr yn ymwybodol o safonau a chanllawiau'r sefydliad sydd eu hangen arnynt i gefnogi arfer diogel ac effeithiol, ac mae ganddynt fynediad iddynt.
- Mae safonau a chanllawiau'n gyfredol ac yn cael eu llywio gan dystiolaeth, yn mynd i'r afael â meysydd risg sy'n dod i'r amlwg, ac yn blaenoriaethu ddiogelu'r cyhoedd.
- Mae safonau a chanllawiau wedi'u halinio ar draws grwpiau o ymarferwyr lle bo'n briodol, i gefnogi gofal diogel ac effeithiol, a chanlyniadau rheoleiddio cyson.

Categori: Addysg a Hyfforddiant

6 Safonau ac Addysg a Hyfforddiant

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn cynnal ac yn cyhoeddi safonau cyfoes ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n blaenoriaethu diogelu'r cyhoedd, yn paratoi dysgwyr i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol a bodloni anghenion poblogaethau amrywiol.

Pam ei fod yn bwysig

Fel y gall y cyhoedd a chyflogwyr fod yn sicr bod darparwyr addysg a hyfforddiant yn arfogi'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal â'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau cywir i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Os ydych yn cael triniaeth gan rywun sy'n dysgu, gallwch fod yn sicr bod eu hymarfer wedi ei oruchwylio'n briodol.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu::

- Mae'r canlyniadau y mae'n rhaid i ddysgwyr eu cyflawni, a'r safonau a ddefnyddir i asesu darparwyr addysg ac asesiad a rhaglenni addysg yn cael eu cadw'n gyfredol.
- Mae'r canlyniadau y mae'n rhaid i ddysgwyr eu cyflawni yn cysylltu â'r safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ac yn paratoi dysgwyr i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol, i flaenoriaethu diogelu'r cyhoedd a bodloni anghenion poblogaethau amrywiol.
- Mae'r safonau a ddefnyddir i asesu darparwyr addysg ac asesu a rhaglenni addysg yn blaenoriaethu diogelu'r cyhoedd. Maent yn cefnogi dysgwyr i gyflawni'r canlyniadau addysgol.

Categoryi: Addysg a Hyfforddiant

7 Sicrwydd Ansawdd Addysg a Hyfforddiant

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn effeithiol o ran sicrhau ei hun bod darparwyr addysg ac asesu yn darparu dysgwyr sy'n bodloni'r canlyniadau addysg a gofynion cofrestru perthnasol eraill, ac yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer dysgu.

Pam ei fod yn bwysig

Mae sefydliadau yn gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn proffesiynau iechyd a gofal. Er mwyn sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu bodloni, mae angen i sefydliadau fod â phrosesau sicrhau ansawdd effeithiol yn eu lle. Bydd hyn yn golygu bod darparwyr addysg a hyfforddiant yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad cywir i'r rhai a fydd yn darparu iechyd a gofal. Bydd sicrhau ansawdd yr amgylchedd dysgu yn golygu y gall pobl sy'n derbyn triniaeth gan rywun sy'n dysgu fod yn sicr bod eu hymarfer wedi ei oruchwylio'n briodol.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Mae'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer darparwyr a rhaglenni addysg ac asesu yn gymesur, yn osgoi dyblygu diangen gyda sefydliadau eraill ac yn ystyried risg.
- Mae'r prosesau sicrhau ansawdd yn dryloyw ac yn gadarn ac yn sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn darparu dysgwyr sydd wedi cyflawni'r canlyniadau addysgol.
- Cymerir camau pan nodir pryderon am addysg a hyfforddiant a lle mae materion diogelwch ehangach i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
- Mae gwybodaeth am ganlyniadau gweithgaredd sicrhau ansawdd wedi'i chyhoeddi (ar gyfer y rheolyddion) neu'n dryloyw (ar gyfer y Cofrestrau Achrededig) ac yn hawdd ei chyrchu.

Categori: Cofrestru

8 Y gofrestr gyhoeddus

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn cadw cofrestr gyhoeddedig gywir a hygyrch o'r holl ymarferwyr iechyd neu ofal, gan nodi'n glir unrhyw gyfyngiadau ar eu cofrestriad. Lle bo'n briodol, mae hyn yn berthnasol i fusnesau a mangreoedd, sydd wedi'u cofrestru.

Pam ei fod yn bwysig

Er mwyn i'r cyhoedd, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, cyflogwyr a chyd-weithwyr proffesiynol iechyd a gofal allu gwirio'n hawdd a yw ymarferydd yn gymwys, yn gofrestredig, yn gyfredol, wedi'i indemnio, ac yn addas i ymarfer.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu::

- Mae'r wybodaeth am unigolion cofrestredig yn gywir, yn hygyrch ac yn hawdd dod o hyd iddi.
- Dim ond gwybodaeth y mae sefydliadau yn asesu ei bod yn angenrheidiol ar gyfer diogelu'r cyhoedd y mae'r gofrestr gyhoeddus yn ei chynnwys.
- Mae cyfyngiadau ar ymarfer yn cael eu harddangos yn glir ac yn weladwy i unrhyw un sy'n cyrchu cofnod cofrestr ar gyfer ymarferydd.
- Mae system yn ei lle ar gyfer diweddarau a sicrhau ansawdd y gofrestr.

9 Y broses gofrestru

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn gweithredu proses dryloyw, gymesur, effeithlon a theg i ganiatáu i ymarferwyr addas yn unig, a, lle bo'n berthnasol, busnesau neu safleoedd ymuno, aros ar, a dychwelyd i'w gofrestr.

Pam ei fod yn bwysig

Er mwyn i bawb allu deall y broses ar gyfer cofrestru gyda sefydliad a bod yn hyderus bod y broses yn gweithredu'n deg, gan sicrhau mai dim ond ymarferwyr addas sy'n ymuno â'r gofrestr.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Dim ond pobl sydd â chymwysterau, sgiliau a gwybodaeth addas ac sy'n broffesiynol addas all gofrestru gyda sefydliad.
- Dim ond busnesau/safleoedd sy'n bodloni gofynion rheolyddion sydd ar y gofrestr.
- Gall pawb wybod beth sydd ei angen i gofrestru gyda sefydliad, gan gynnwys sut i wneud apêl, ac mae'r broses yn hawdd ei deall.
- Mae'r broses ar gyfer cofrestru gyda sefydliad, ac ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau cofrestru, yn deg, yn gymesur ac yn effeithlon.
- Caiff penderfyniadau ynghylch cofrestru ac apeliadau eu hesbonio'n glir.

Categori: Cofrestru

10

Diogelu'r cyhoedd rhag cael eu camarwain ynghylch statws cofrestru

Beth ydyn ni'n ei ddisgwy

Mae'r sefydliad yn cymryd camau cymesur mewn ymateb i'r risg y bydd pobl yn camarwain y cyhoedd ynghylch eu statws cofrestru.

Pam ei fod yn bwysig

Er mwyn lleihau'r risg o niwed sy'n deillio o dderbyn triniaeth neu wasanaethau gan bobl nad oes ganddynt y cymwysterau na'r sgiliau i ymarfer yn ddiogel.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Mae gan y sefydliad brosesau effeithiol a chyhoeddedig ar waith i ddelio â phobl sy'n camliwio eu statws cofrestru.
- Mae'r dull a ddefnyddir i reoli'r risgiau a achosir gan bobl sy'n camliwio eu statws cofrestru yn gymesur, yn ystwyth ac yn gallu addasu i risgiau sy'n newid a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

11 Addasrwydd i gofrestru parhaus

Beth ydyn ni'n ei ddisgwy

Mae gan y sefydliad ofynion a phrosesau cymesur ar waith i sicrhau bod unigolion cofrestredig yn cynnal eu sgiliau ac yn parhau i fod addas i ymarfer.

Pam ei fod yn bwysig

Fel bod sgiliau a chymwyseddau ymarferwyr iechyd a gofal yn parhau i gael eu diweddarau a'u datblygu drwy gydol eu gyrfaedd er mwyn iddynt allu darparu gofal diogel ac effeithiol. Felly, trwy wiriadau priodol, dim ond ymarferwyr proffesiynol addas sydd ar y gofrestr.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Mae'r prosesau sicrwydd sydd gan sefydliadau ar waith ynghylch cymhwysedd ac addasrwydd ymarfer parhaus yn gymesur, yn deg, ac yn cyd-fynd ag arfer gorau.
- Mae'r sefydliad glir ynghylch diben y gofynion mae'n eu gosod ar unigolion cofrestredig i sicrhau eu cymhwysedd a'u haddasrwydd parhaus, a'u cefnogi i fodloni'r gofynion.
- Mae unigolion cofrestredig, cyflogwyr a'r cyhoedd yn glir ynghylch yr hyn sy'n rhaid ei wneud i gynnal cofrestriad.
- Mae gofynion sicrwydd y sefydliad ynghylch cymhwysedd ac addasrwydd ymarfer parhaus yn seiliedig ar risg ac wedi'u targedu at ddiogelu'r cyhoedd.

12 Codi pryderon am unigolyn cofrestredig

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn sicrhau bod y broses ar gyfer codi pryder yn hygyrch i bawb, yn egluro'r mathau o bryderon y dylid eu cyfeirio atynt, ac yn cefnogi datrysiaid lleol amserol i achosion lle bo'n briodol.

Pam ei fod yn bwysig

Er mwyn i bryderon difrifol am ymddygiad a chymhwysedd unigolion cofrestredig gael eu dwyn i sylw'r sefydliad gan unrhyw un, a gellir mynd i'r afael â phryderon llai difrifol yn lleol neu drwy ddulliau eraill lle bo'n briodol. Bydd hyn yn cefnogi defnydd effeithiol o amser ac adnoddau gan gyflogwyr, rheolyddion a chofrestrau, tra'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelu'r cyhoedd.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Gall unrhyw un gael mynediad at wybodaeth am sut i godi pryder am unigolyn cofrestredig i'r sefydliad, y mathau o bryderon y gallant gymryd camau yn eu herbyn, a'r broses ar gyfer delio â nhw.
- Gall unrhyw un godi pryder i'r sefydliad am ymarfer neu ymddygiad unigolyn cofrestredig.
- Mae rheolyddion a chofrestrau yn annog pryderon am unigolion cofrestredig i gael eu datrys gan y sefydliad cywir ar y lefel fwyaf priodol.
- Mae gan gyflogwyr a sefydliadau eraill sy'n gwneud atgyfeiriadau eglurder ynghylch y mathau o bryderon y dylid eu cyfeirio at reoleiddiwr neu gofrestr, a'r rhai y dylent geisio eu datrys eu hunain.

Categori: Pryderon

13

Ymchwilio a datrys pryderon am unigolyn cofrestredig – prydlondeb

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn ystyried, yn ymchwilio ac yn datrys pryderon am unigolion cofrestredig cyn gynted â phosibl ar gyfer datrysiad teg a diogel i'r achos.

Pam ei fod yn bwysig

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon mewn modd amserol fel bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn cael eu hamddiffyn cyn gynted â phosibl, bod tegwch yn cael ei uchafu a bod yr effaith ar les cael ei lleihau i'r eithaf i bawb.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Mae pryderon yn cael eu datrys heb oedi afresymol neu anghyfiawn i unigolion cofrestredig, achwynwyr a thystion.

Categori: Pryderon

14

Ymchwilio a datrys pryderon am unigolyn cofrestredig – tegwch

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae polisïau a phroses y sefydliad ar gyfer ystyried, ymchwilio a datrys pryderon am unigolion cofrestredig yn deg, yn gymesur, yn gyson ac yn dryloyw, tra'n diogelu'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd.

Pam ei fod yn bwysig

Fel bod pob penderfyniad addasrwydd i ymarfer, ni waeth ble maent yn ffitio yn y broses, yn diogelu'r cyhoedd yn ddigonol heb roi'r unigolyn cofrestredig dan anfantaïs annheg, a bod hyn yn glir ac yn ddealladwy i eraill.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Mae'r prosesau ar gyfer archwilio, ymchwilio a datrys pryderon am unigolion cofrestredig yn deg ac yn diogelu'r cyhoedd.
- Mae'r penderfyniadau ynghylch pryderon yn deg i'r holl bartïon dan sylw ac yn diogelu'r cyhoedd.
- Mae'r sefydliad yn esbonio'n glir sut a pham mae'n gwneud penderfyniadau wrth archwilio, ymchwilio a datrys achosion.

Categori: Pryderon

15

Pryderon am unigolion cofrestredig - adnabod risg a gweithredu arno

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn nodi ac yn rheoli risgiau ym mhob achos sy'n awgrymu bod unigolyn cofrestredig yn peri risg ddifrifol i ddiogelwch a hyder y cyhoedd ac yn cymryd camau amserol i gyfyngu ar ymarfer lle bo angen (megis mesurau dros dro).

Pam ei fod yn bwysig

Fel bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hamddiffyn cyn gynted ag y bo modd lle mae risg difrifol o niwed oherwydd arfer anniogel neu ymddygiad gwael gan unigolyn cofrestredig.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Mae'r sefydliad yn gallu asesu ac adolygu lefel y risg mewn achos yn barhaus.
- Mae'r sefydliad yn cymryd camau cyflym a phriodol i gyfyngu ar ymarfer unigolion cofrestredig yn y cyfnod rhwng derbyn y pryder a chwblhau'r achos, pan fyddant yn asesu bod risg difrifol i ddiogelwch cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth (er enghraifft, ceisio mesurau dros dro ble fo'n berthnasol).

16 Cefnogaeth i bob parti

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar achwynwyr, tystion, ac unigolion cofrestredig sy'n ymwneud â chwyn drwy gydol yr achos ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiad achos mewn ffordd sensitif ac amserol.

Pam ei fod yn bwysig

Er mwyn i achwynwyr, tystion, ac unigolion cofrestredig allu ymgysylltu'n llawn â'r broses addasrwydd i ymarfer, caiff unrhyw effeithiau negyddol eu lleihau a gellir sicrhau'r dystiolaeth orau bosibl ar gyfer y broses.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Mae achwynwyr, tystion ac unigolion cofrestredig yn cael eu diweddarau drwy gydol oes yr achos.
- Caiff achwynwyr, tystion, ac unigolion cofrestredig eu trin ag urddas, parch a sensitifrwydd.
- Mae'r broses yn lleihau niwed pellach i iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl a lles, pob parti.

Categori: Achredu cofrestr wirfoddol

Cymhwysedd a Budd y Cyhoedd

Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl


Mae'r gofrestr yn gymwys i gael ei hachredu, yn gweithredu'n gyfreithlon, ac mae achredu'r gofrestr er budd y cyhoedd.

Pam ei fod yn bwysig

Er mwyn i'r cyhoedd allu ymddiried mewn cofrestrau achrededig, ymarferwyr cofrestredig a'r Awdurdod oherwydd mai dim ond pan fydd yn gyfreithlon y rhoddir achrediad, bod manteision y practis yn glir a bod unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r practis yn cael eu rheoli.

Yn ymarferol byddai hyn yn golygu:

- Mae'r gyfraith yn caniatáu achredu'r gofrestr oherwydd:
 - mae'n gofrestr o ymarferwyr iechyd (y Deyrnas Unedig gyfan) neu ymarferwyr gofal cymdeithasol (Lloegr yn unig)
 - nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i fod yn gofrestredig i ddefnyddio teitl gwarchodedig a/neu gyflawni'r arfer.
- Mae tystiolaeth wrthrychol bod defnyddwyr gwasanaeth yn elwa ar y practis.
- Mae risgiau'r ymarfer, gan gynnwys y potensial ar gyfer hawliadau camarweiniol a heb eu profi, yn cael eu nodi, eu cyfiawnhau, a'u rheoli gan safonau a gofynion cofrestru'r gofrestr.
- Mae manteision yr ymarfer yn gorbwyso'r risgiau a reolir.
- Mae'r Gofrestr ac ymarferwyr yn cydymffurfio â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig.



cy.professionalstandards.org.uk/

Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

16-18 New Bridge St

Llundain

EC4V 6AG

T: 020 7389 8030

E info@professionalstandards.org.uk

© Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | **Mawrth 2026**